


CYMDEITHAS HYNAFIAETHAU SIR GAERFYRDDIN
CARMARTHENSHIRE ANTIQUARIAN SOCIETY
NEWYDDLEN Mai, 2021



<https://www.carmants.org.uk>

@carm_ant

<https://www.facebook.com/The-Carmarthenshire-Antiquarian-Society-114354163677632>

RHAGLEN:

15 Mai: Bydd Rhaglen 2021 yn ailgychwn fel a gyhoeddwyd, o fewn rheolau Covid. Ni chaniateir mwy na 30 i ymgynnull, ac efallai y golyga hyn rannu grŵp ar ambell ymweliad, e.e. pe bai grŵp mawr yn ymuno â Thaith Tref Llanelli, sefydlir dwy garfan.

2022: Ymhlith y syniadau cychwynnol ar gyfer Rhaglen 2022 y mae: taith (ddydd neu breswyl), ymweliad â Phentywyn (yr Amgueddfa newydd ac atyniadau eraill), sgysiau ar y Wisg Gymreig, melinau a gefeiliau cynnar, Treftadaeth y Calch ar y Mynydd Du, Taith Gerdded Menywod Caerfyrddin, siaradwr o Adran Hynafiaethau Cludadwy yr Amgueddfa Genedlaethol, ac ymweliadau â Dinbych-y-pysgod a gerddi Abergwili. Cysylltwch â ni ar bob cyfrif i gynnig syniadau eraill ...

Awgrymwyd y dylid cynnwys Taith Dreftadaeth Griffith Jones yn ystod un o fisoedd yr haf er mwyn i aelodau werthfawrogi'r prosiect a threftadaeth grefyddol y Sir.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL:

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol fel a fwriadwyd ar 17 Ebrill, ond er mwyn osgoi gwrthdaro ag angladd y Tywysog Philip, gohiriwyd sgwrs Tom Lloyd tan noson 29 Ebrill, drwy Zoom. Nodwyd â thristwch golli'n Cyn-lywydd, y Parchedig Towyn Jones a fu'n gyfaill ac yn ysbrydoliaeth i'r Gymdeithas.

Derbyniwyd yn unfrydol gan y Cyfarfod argymhelliad y Pwyllgor Gwaith bod Mr Thomas Lloyd o Gwrt-henri yn cael ei ethol yn Llywydd. Bu Tom yn golofn i'r Gymdeithas ers blynnyddoedd a gwyddom yn dda am ei waith diflino dros adeiladau hanesyddol ac agweddau eraill o'n treftadaeth. Mae'n awdur ac yn gyd-awdur; bu'n Gadeirydd Cyngor Adeilau Hanesyddol Cymru, Ymddiriedolaeth yr Adeiladau o dan Fygythiad a Chomisiwn y Cadeirlannau a'r Eglwysi. Bu'n Gyfarwyddwr Bwrdd Croeso Cymru ac er 2011 ef yw Herodr Cymru. Llongyfarchwyd Tom yn gynnes ar ei etholiad unfrydol.

Wedi cyfnod hir yn Ysgrifennydd, Penderfynodd Menna beidio â sefyll i'w haillethol, a diolchwyd yn gynnes iddi am ei gwasanaeth. Mae'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi cynnig Mary Thorley i gamu i'r adwy dros dro; fel Ysgrifennydd Aelodaeth, mae Mary eisoes yn gweinyddu ein cronfa ddata a blwch ebost y Gymdeithas. Ni safodd Byron Huws na Ruth Judge i'w haillethol a diolchwyd iddynt hwy hefyd am eu cyfraniadau. Mae Jeremy a Menna'n cadw'u seddau ar y Cyngor.

PROSIECT TREFTADAETH GRIFFITH JONES:

Ymgeisia'r Gymdeithas am gyfanswm o £1,300 mewn cymorthdaliadau i ddiweddarau'n gwefan a sefydlu taith ar hyd saith lleoliad yn ne-orllewin y Sir. Bydd y daith yn adrodd hanes Griffith Jones ac eraill a ysbrydolwyd ganddo i danio cynnydd cenedlaethol sylweddol mewn crefydd, llythrennedd a'r Gymraeg. Cyhoeddir mwy o fanylion maes o law, ac os yn llwyddiannus, defnyddir cyfran o'r cymorthdal i ddatblygu ein gwefan.

DARLITH THOMAS LLOYD:

Daeth mwy na 50 o aelodau ynghyd drwy Zoom i glywed Tom yn siarad am gyswllt Sir Gâr â llenyddiaeth Saesneg y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dangoswyd wynebddenau tua 40 cyfrol o'i gasgliad helaeth, a oedd yn dyddio o 1600 hyd 1900, ac roedd brwdfrydedd a gwybodaeth Tom yn amlwg wrth iddo sôn am fywyd a gwaith yr awduron a chynnwys y llyfrau. Bu'n noson hynod lwyddiannus.